**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20fed Medi 2010**

**YMATEB I'R MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 I nodi'r gwahoddiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo'r broses craffu ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru).

## Cefndir

2 Bydd y Mesur Llywodraeth Leol yn gwneud newidiadau gyda'r bwriad o gryfhau strwythurau a dulliau gweithio llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel, ac sy'n sicrhau bod cynghorau lleol yn ymgysylltu â phob sector o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

## Gwybodaeth

3 Mae Pwyllgor Deddfwriaeth yn ymgymryd â gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Mae'r alwad am dystiolaeth wedi cael ei chyhoeddi gyda dyddiad cau o 1af o Hydref 2010 wedi ei bennu ar gyfer ymatebion.

4 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer:

(i) ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a'r anghymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau cynghorau lleol;

(ii) adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel y bo'r strwythurau hynny'n gweddu'n well i amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
(iii) cryfhau rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediaethau'r awdurdodau lleol ("aelodau'r meinciau cefn") mewn perthynas â chraffu ar wasanaethau lleol;
(iv) datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau ac i weithredu'n ehangach yn lleol, ac i fod yn fwy effeithiol o ran eu rôl fel cynrychiolwyr ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill;
(v) diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau cynghorwyr;
(vi) caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a chydlafurio rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill.

**Argymhelliad**

5 Argymhellir fod Aelodau yn cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb i Glerc yr Awdurdod i ddarparu ymateb ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Bydd copi o'r ymateb ar gael i'r holl Aelodau.